

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 22/2015

www.cymru.gov.uk

Arolwg busnesau twristiaeth Cymru

Ton 1, 2015



Arolwg Busnesau Twristiaeth Cymru: Ton 1, 2015

Anthony Lydall, Strategic Marketing



Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth
Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Canolfan QED
Ystad Trefforest
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR
Ffôn: 0300 061 6026
Ebost: robert.lewis@cymru.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-3557-7

3 Mehefin 2015

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau.....	2
2. Cefndir a Methodoleg	3
3. Perfformiad y Pasg	5
4. Perfformiad y Flwyddyn Hyd yn Hyn.....	9
5. Disgwyliadau ar gyfer yr Haf.....	14

1. Prif Ganfyddiadau

Mae'r diwydiant twristiaeth wedi mwynhau Pasg braf

- 1.1 Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru wedi mwynhau cyfnod Pasg prysur. Mae oddeutu dau o bob pump (37%) o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr nag yn ystod y Pasg llynedd, a mae bron i hanner (45%) wedi cael yr un lefel. Dim ond lleiafrif (18%) sy'n adrodd gostyngiad.
- 1.2 Mae mwy na hanner (56%) o fusnesau sy'n profi lefelau cynyddol o ymwelwyr yn priodoli hyn i dywydd gwell.

Mae atyniadau wedi perfformio'n arbennig o dda

- 1.3 Mae atyniadau wedi perfformio'n arbennig o dda'r Pasg hwn, gydag oddeutu hanner (53%) yn adrodd niferoedd cynyddol o ymwelwyr a thraean arall (33%) yn adrodd yr un lefel. Mae'r mwyafrif (76%) wedi priodoli eu llwyddiant i dywydd gwell.

Mae digwyddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru wedi denu ymwelwyr

- 1.4 De-ddwyrain Cymru yw'r rhanbarth sydd wedi perfformio orau, gydag oddeutu hanner (47%) o fusnesau'n derbyn mwy o ymwelwyr na'r Pasg diwethaf. Ymddengys fod digwyddiadau lleol wedi bod yn fwy dylanwadol yn y rhanbarth hwn nag yn rhanbarthau eraill Cymru. Mae bron i chwarter (22%) o fusnesau yn y De-ddwyrain sy'n cyflawni mwy o ymwelwyr yn priodoli eu llwyddiant i ddigwyddiadau lleol, o gymharu â gweddill Cymru.

Mae'r farchnad ddomestig yn perfformio'n dda eleni

- 1.5 Mae marchnadoedd Cymru a'r DU wedi perfformio'n dda hyd yn hyn eleni. Mae chwarter (26%) o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o Gymru hyd yn hyn eleni, a mae oddeutu tri o bob pump (62%) wedi profi'r un lefel. Mae traean (34%) o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru hyd yn hyn eleni, a mae dros hanner (56%) wedi derbyn yr un lefel.
- 1.6 Mae'r farchnad dramor yn sefydlog; mae rhai gweithredwyr wedi datgan nad yw eu busnes tramor fel arfer yn codi tan yr haf.

Disgwyliadau uchel ar gyfer tymor yr haf

- 1.7 Yn dilyn Pasg prysur mewn tywydd braf, mae hyder ar gyfer yr haf ar lefel uchel. Mae oddeutu dau o bob pump (38%) o weithredwyr yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn' ar gyfer yr haf, a mae oddeutu tro o bob pump (58%) yn dweud eu bod yn 'eithaf hyderus'.

2. Cefndir a Methodoleg

Beth yw Arolwg Twristiaeth Busnes Cymru?

- 2.1 Cynllunir Arolwg Twristiaeth Busnes Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru'n perfformio ar adegau allweddol y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi bod yn rhedeg ers 2005, a fel arfer cynhelir pum 'ton' ymchwil bob blwyddyn.
- 2.2 Mae'r don ymchwil hon yn perthyn i Basg 2015, gyda mesuriadau hefyd o berfformiad gan farchnadoedd gwahanol yn y flwyddyn hyd yn hyn a disgwyliadau ar gyfer tymor yr haf sy'n dod.

Sut gynhelir yr Arolwg?

- 2.3 Ymhob ton ymchwil, cynhelir 400 o gyfweiliadau ar y ffôn gyda sampl cytbwys o fusnesau twristiaeth ledled Cymru. Dangosir y sampl ar gyfer y don Basg hon isod:

Sector/Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Atyniadau Llety â gwasanaeth Llety hunanddarpar Safleoedd carafanau a gwersylla	26	11	24	26	87
	41	30	31	30	132
	40	30	27	20	117
	25	15	20	5	65
Cyfanswm	132	86	102	81	401


- 2.4 Mae'r mwyafrif o fusnesau (347) yn y sampl yn cael eu graddoli ar hyn o bryd gan Groeso Cymru. Hefyd mae 54 o fusnesau yn y sampl nas

graddolir gan Groeso Cymru; mae'r rhain wedi'u lledaenu ar draws y gwahanol ranbarhau a sectorau.

- 2.5 Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau. Cynhwysir copi o'r holiadur a ddefnyddiwyd fel atodiad.

3. Perfformiad y Pasg

Perfformiad yn ôl sector



Sylfaen: 382

Mae 6 o ymatebwyr wedi ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn; cauwyd y rhain allan o'r canlyniadau uchod ac ail-seiliwyd y canrannau

Mae'r diwydiant twristiaeth wedi mwynhau Pasg braf

- 3.1 Mae'r diwydiant twristiaeth wedi mwynhau cyfnod Pasg prysur. Mae oddeutu dau o bob pump (37%) o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr nag yn ystod y Pasg llynedd, a mae bron i hanner (45%) wedi cael yr un lefel.

Mae atyniadau wedi perfformio'n arbennig o dda

- 3.2 Mae atyniadau wedi perfformio'n arbennig o dda yn ystod y Pasg hwn, gydag oddeutu hanner (53%) yn adrodd niferoedd cynyddol o ymwelwyr a thraean arall (33%) yn adrodd yr un lefel. Mae'r mwyafrif (76%) wedi priodoli eu llwyddiant i dywydd gwell.

"Fe wnaeth tywydd da helpu i gynyddu'r niferoedd"
Atyniad, y Gogledd


"Rydyn ni wedi hysbysebu'n fwy felly cawson ni lawer o ymwelwyr lleol"

Gwersylla yn yr heulwen

- 3.3 Mae'r sector carafanau a gwersylla wedi perfformio orau o'r sectorau llety, gyda dau o bob pump (40%) o fusnesau'n cynyddu eu lefelau ymwelwyr dros y Pasg. Gan mai hwn yw'r sector llety sy'n dibynnu fwyaf ar y tywydd, cyrhaeddodd y tywydd ar amser priodol. Mae'r mwyafrif (76%) o safleodd carafanau a gwersylla sydd wedi cynyddu niferoedd eu hymwelwyr yn priodoli hyn i'r tywydd.

"Mae i gyd yn ymwneud â'r tywydd ynghylch gwersylla"
Maes carafanau, y De-orllewin

Perfformiad yn ôl rhanbarth



Sylfaen: 382

Mae digwyddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru wedi denu ymwelwyr

- 3.4 De-ddwyrain Cymru yw'r rhanbarth sy'n perfformio orau o ran niferoedd cynyddol o ymwelwyr, gydag oddeutu hanner (47%) o'r busnesau'n derbyn mwy o ymwelwyr nag yn ystod y Pasg diwethaf.
- 3.5 Ymddengys fod digwyddiadau lleol wedi bod yn fwy dylanwadol yn y De-ddwyrain na mewn rhanbarthau eraill yng Nghymru. Mae bron i chwarter (22%) o fusnesau yn y De-ddwyrain sy'n cyflawni niferoedd cynyddol o

ymwelwyr yn priodoli eu llwyddiant i ddigwyddiadau lleol, o gymharu â 5% o fusnesau yng ngweddill Cymru.

Perfformiad cadarn yng Ngogledd Cymru

- 3.6 Nid yw Gogledd Cymru wedi gweld y niferoedd cynyddol o ymwelwyr mae De Cymru wedi'u mwynhau, ond ar y llaw arall mae perfformiad y rhanbarth hwn wedi bod yn gadarn, gyda lleiafrif yn unig (8%) o fusnesau'n profi gostyngiad yn nifer eu hymwelwyr.


"Rydyn ni wedi cael llawer o bobl o Dde Cymru'n siarad Cymraeg eleni"

Llety â Gwasanaeth, y Gogledd

"Mae'r mwyafrif mawr o'n gwesteion yn Seisnig"

Llety â Gwasanaeth, y Gogledd

Rhesymau am lefelau cynyddol o ymwelwyr



Sylfaen: 142


Mae'r tywydd wedi llywodraethu'r Pasg hwn

- 3.7 Y tywydd yn ystod y Pasg hwn yw'r ffactor llywodraethol ar berfformiad ymysg y rhai hynny sy'n cynyddu lefelau eu hymwelwyr. Mae dros hanner (56%) o fusnesau sy'n derbyn mwy o ymwelwyr yn priodoli eu

llwyddiant i dywydd gwell; mae hyn yn llawer uwch na'r ail reswm amlaf (eu marchnata eu hunain) - 14%).

- 3.8 Ymddengys fod atyniadau a safleoedd carafanau a gwersylla wedi elwa o'r tywydd yn sylweddol fwy na llety â gwasanaeth a llety hunanddarpar. Mae'r mwyafrif (76%) o atyniadau a safleoedd carafanau a gwersylla sy'n cynyddu lefelau eu hymwelwyr yn priodoli hyn i'r tywydd, o gymharu â 40% o lety â gwasanaeth a 34% o fusnesau hunanddarpar.

Rhesymau am lai o ymwelwyr



Sylfaen: 69

Nid yw'r tywydd wedi bod o blaid pob busnes

- 3.9 Mewn cyferbyniad â'r ffaith mai'r tywydd yw'r ffactor llywodraethol o ran perfformiadau gwell yn ystod y Pasg hwn, hefyd dyma'r rheswm amlaf a roddir am niferoedd llai o ymwelwyr.
- 3.10 Dywed rhai gweithredwyr, yn arbennig yng Ngogledd Cymru, bod y tywydd oer yn y cyfnod cyn penwythnos y Pasg wedi niweidio eu siawnsiau o ddenu a chadw archebion Pasg, a felly cyrhaeddodd y tywydd braf ychydig yn rhy hwyr.

“Wnaeth y tywydd yn y cyfnod yn arwain at y Pasg ddim ein helpu ni o gwbl, a chawson ni ychydig o gansladau. Fe wnaeth tywydd gwirioneddol y penwythnos gyflwyno ychydig o archebion funud olaf.”

Parc Carafanau, y Gogledd

“Oherwydd y tywydd gwael, roedd y tir mewn cyflwr gwael felly penderfynon ni i beidio â derbyn unrhyw archebion eraill ar gyfer y Pasg oherwydd byddai’n galw am lawer o waith inni gael y tir i fyny at y safon.”

Parc Carafanau, y Gogledd

Nid yw pob busnes yn ffynnu yn yr heulwen

- 3.11 Mae llawer o atyniadau dan do nad ydynt yn perfformio gystal mewn tywydd braf, wrth i ymwelwyr posibl anelu am y traeth neu’r parc yn lle.

“Dydy tywydd da ddim y peth gorau i ni gan fod pobl yn tueddu i fynd i’r traeth neu atyniadau tebyg eraill. Rydyn ni’n tueddu i wneud yn well ar ddyddiau mwyn, cymylog.”

Atyniad, y Gogledd

“Pan yw’r tywydd yn wael, rydyn ni’n cael llawer o ymwelwyr, ond pan yw’r tywydd yn dda, rydyn ni’n wag.”

Atyniad, y De-ddwyrain

Y Pasg yn gynharach eleni

- 3.12 Mae ymchwil yn ystod blynyddoedd blaenorol wedi dangos y gall amseriad y Pasg wneud llawer o wahaniaeth i berfformiad y diwydiant twristiaeth. Llynedd, syrthiodd Dydd Sul y Pasg ar 20fed Ebrill, o gymharu â 5ed Ebrill eleni. Felly er gwaethaf yr heulwen eleni, nid oedd y tywydd mor gynnes â llynedd pan oedd y Pasg yn hwyrach yn y flwyddyn.

“Pryd bynnag mae’r Pasg yn gynnar, rydyn ni’n profi deiliadaeth isel.”

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

“Roedd y Pasg yn hwyrach llynedd, felly roedd yr hinsawdd gyffredinol yn dwymach. Dim ond pan gyrhaeddodd y tywydd da dechreuon ni fynd yn brysur.”

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Mae llawer yn ansicr ynghylch y rhesymau am fod yn dawel


- 3.13 Nid yw cyfran eithaf uchel (26%) o weithredwyr sy'n derbyn llai o ymwelwyr yn ystod y Pasg hwn yn gwybod pam.

“Dw i ddim yn siŵr pam mae wedi bod yn dawel”

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

4. Perfformiad y Flwyddyn Hyd yn Hyn

Proffidioldeb




Sylfaen: 340

Mae 48 o ymatebwyr wedi ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn; cauwyd y rhain allan o'r canlyniadau uchod a mae'r canrannau wedi'u hail-seilio

Cynhelir lefelau iach o elw

- 3.14 Mae ychydig dros draean (36%) o fusnesau wedi cynyddu eu proffidioldeb hyd yn hyn eleni o gymharu â'r un cyfnod llynedd, a mae oddeutu hanner arall (47%) wedi cynnal yr un lefel.
- 3.15 Mae blynyddoedd diweddar ym maes twristiaeth yn Ynysoedd Prydain wedi gweld gweithredwyr dan bwysau i gynnal maint yr elw yn ystod cyfnodau o gostau gweithredu cynyddol a diwylliant cynyddol o chwilio am fargeinion ymysg defnyddwyr, felly mae'n galonogol i weld llawer o weithredwyr Cymreig yn gwella eu proffidioldeb.
- 3.16 Atyniadau a safleoedd carafanau a gwersylla yw'r ddau sector sydd wedi perfformio orau dros y Pasg, a hefyd dyma'r ddau sector sydd wedi perfformio orau o ran proffidioldeb yn y flwyddyn hyd yn hyn.

Perfformiad yn ôl y farchnad yn y flwyddyn hyd yn hyn



Cauwyd allan ymatebwyr nad ydynt fel arfer yn derbyn ymwelwyr gan farchnad neilltuol, neu nad ydynt yn gwybod am berfformiad y farchnad honno, o'r canlyniadau ar gyfer y farchnad honno. Oherwydd hynny, mae'r sylfaen ar gyfer y canlyniadau'n amrywio yn ôl y farchnad.

Mae'r farchnad ddomestig yn perfformio'n dda hyd yn hyn eleni

- 3.17 Mae marchnadoedd Cymru a'r DU wedi perfformio'n dda hyd yn hyn eleni. Mae chwarter (26%) o fusnesau wedi cael mwy o ymwelwyr o Gymru hyd yn hyn eleni, a mae traean (34%) wedi cael mwy o ymwelwyr o'r DU y tu allan i Gymru.
- 3.18 Mae De-ddwyrain Cymru wedi perfformio'n arbennig o dda yn y farchnad DU (y tu allan i Gymru), gydag oddeutu hanner (46%) o fusnesau'n cynyddu nifer eu hymwelwyr o'r DU. Mae atyniadau'n perfformio'n arbennig o dda yn y farchnad Cymru, gyda bron i hanner (44%) yn cynyddu nifer eu hymwelwyr o Gymru.

"Rydyn ni wedi cael llawer o bobl o Loegr. Dw i ond yn meddwl mai Cymru yw'r lle i ymweld ag e."
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Efallai ei fod yn rhy gynnar i farnu ar gyfer marchnadoedd tramor

- 3.19 Mae'r farchnad dramor yn sefydlog; mae rhai gweithredwyr wedi datgan nad yw eu busnes tramor yn dechrau codi tan yr haf fel arfer.

"Mae gwesteion o Ewrop yn aros yn yr haf gan fwyaf"


Parc carafanau, y Gogledd

"Mae'r gwesteion o Ogledd America a gweddill y byd yn tueddu i ddod i aros yn ystod yr haf. Mae cyfnod y Pasg yn tueddu i ffocysu'n fwy ar westeion o Brydain sy'n aros am benwythnos; mae'r gwesteion tramor yn tueddu i gael gwerth eu harian ac aros am gyfnod hwy yn yr haf."

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

5. Disgwyliadau ar gyfer yr haf

Disgwyliadau yn ôl y farchnad



Cauwyd allan ymatebwyr nad ydynt fel arfer yn derbyn ymwelwyr gan farchnad neilltuol, neu nad ydynt yn gwybod beth i'w ddisgwyl, o'r canlyniadau ar gyfer y farchnad honno. Oherwydd hynny, mae'r sylfaen ar gyfer y canlyniadau'n amrywio yn ôl y farchnad.

Disgwyliadau positif iawn ar gyfer yr haf

- 3.20 Yn dilyn cyfnod Pasg da, mae disgwyliadau ar gyfer yr haf yn uchel. Mae hanner (51%) o fusnesau'n disgwyl i niferoedd ymwelwyr godi yr haf hwn, a mae mwyafrif y gweddill (43%) yn disgwyl cynnal yr un lefel. Dim ond lleiafrif bach (6%) sy'n disgwyl i niferoedd ostwng.

"Eisoës rydyn ni wedi cael llawer o archebion ar gyfer yr haf, sy'n arwydd da bob tro"

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Dw i wedi fy archebu'n llawn ar gyfer yr haf"

Llety hunanddarpar, y Gogledd

- 3.21 Mae disgwyliadau yn ôl sector a rhanbarth yng Nghymru'n cyfateb yn agos â pherfformiad y Pasg, sef mai atyniadau, safleoedd carafanau a gwersylla a busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru yw'r rhai mwyaf positif. Mae'r mwyafrif (70%) o atyniadau'n disgwyl y bydd niferoedd o ymwelwyr yn mynd i fyny'r haf hwn, fel sy'n wir ar gyfer 57% o safleoedd carafanau a gwersylla a 70% o fusnesau yn Ne-ddwyrain Cymru.

"Ymddengys fod yr economi ar y cyflymder cywir o'r diwedd i'r diwydiant twristiaeth ddechrau tyfu eto."

Parc carafanau, y Gogledd

Yr Almaen yw'r farchnad orau dramor

- 3.22 Disgwylir i'r holl farchnadoedd tramor berfformio'n dda yr haf hwn, yn arbennig yr Almaen, lle gwnaed sylwadau ynghylch y ffaith bod Croeso Cymru'n hysbysebu yno.


"Mae'r hysbysebu yn yr Almaen wedi cael effaith anferth. Derbynion ni'r neges e-bost gan Groeso Cymru am yr hyrwyddiad yn yr Almaen, a dau ddiwrnod yn ddiweddarach cawson ni archebion gan dwristiaid Almeinig, allen ni ddim gredu'r peth."

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

"Gyda'r hysbysebu yn yr Almaen, rydyn ni'n gobeithio y bydd y niferoedd yn cynyddu."

Parc carafanau, y Gogledd

Ffactorau positif disgwyliedig ar berfformiad



Disgwylir mai tywydd fydd y ffactor llywodraethol eto

- 3.23 Mae'r mwyafrif (70%) o weithredwyr yn dweud ei fod yn debygol y caiff y tywydd effaith bositif ar berfformiad eu busnes yr haf hwn. Mae'r arolwg hwn wedi'i gynnal yn ystod tywydd heulog gan fwyaf, a felly mae'n bosibl bod hyn wedi dylanwadu ar y canlyniad neilltuol hwnnw.

"Os bydd yr haf unrhywbeth fel mae'r Pasg wedi bod, bydda i'n hapus iawn."

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Cyhyd â bod y tywydd yn iawn, dw i'n methu gweld unrhyw reswm pam na fyddwn ni'n cael tymor da."

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Bod yn rhagweithiol

- 3.24 Dywed rhai gweithredwyr (22%) ei fod yn debygol y bydd eu marchnata eu hunain yn cael effaith bositif ar berfformiad, a mae enghreiffiau o hyn wedi'u rhoi.

“Rydyn ni wedi gweithredu ein strategaeth farchnata ein hunain a dw i’n trio cael mwy o deithiau diwrnod o’r llongau mordeithio sy’n docio yng Nghaergybi. Amser a ddengys a fydd hyn yn llwyddo.”

Atyniad, y Gogledd

“Rydyn ni wedi cyflogi swyddog marchnata newydd sy’n awyddus i drefnu digwyddiadau newydd a chodi proffil y parc.”

Atyniad, y De-ddwyrain

Mae digwyddiadau’n denu busnes

- 3.25 Mae rhai gweithredwyr (22%) yn disgwyl elwa ar ddigwyddiadau lleol yr haf hwn. Mae eraill (yn Ne-ddwyrain Cymru) hefyd wedi dweud y bydd effaith Cwpan Rygbi'r Byd yn dechrau effeithio tuag at yr Hydref.

“Mae’r mwyafrif o’n gwesteion Americanaidd yn dod yma am ddigwyddiad lleol.”

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

“Mae digwyddiadau fel yr Iron Man [triathlon] yn hwb i’w groesawu i’r busnes.”

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

“Dylai’r cyfnod yn arwain at Gwpan [Rygbi’r] Byd gynyddu niferoedd.”

Atyniad, y De-ddwyrain

Cwsmeriaid dychwel yw conglaen rhai busnesau

- 3.26 Dywed un o bob pump (20%) o weithredwyr fod busnes dychwel yn debygol o gael effaith bositif yr haf hwn. Mae cwsmeriaid dychwel yn cyflwyno llawer o sefydlogrwydd.


“Rydyn ni’n cadw parc glân iawn, yn cynnal y cyfleusterau ac yn sicrhau bod gennym gynnyrch gwych drwy’r amser. Mae hyn yn helpu i gynnal busnes dychwel.”

Parc carafanau, y Gogledd

“Rydyn ni’n ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn fusnes sy’n canolbwyntio ar y teulu, gyda 70% o’n masnach yn dod o ymwelwyr dychwel.”

Parc carafanau, y Gogledd

Materion sy'n peri pryder



Sylfaen: 401

Nid oes gan lawer o weithredwyr faterion sy'n peri pryder

- 3.27 Dywed un o bob tri (34%) o weithredwyr nad oes ganddynt faterion sy'n peri pryder ynghylch eu busnes yr haf hwn. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sectorau sy'n dibynnu'n llai ar y tywydd - llety â gwasanaeth a llety hunanddarpar. Dywed hanner (50%) y gweithredwyr hunanddarpar nad oes ganddynt faterion sy'n peri pryder iddynt yr haf hwn.


Mae tywydd yn peri pryder yn y sectorau carafanau ac atyniadau

- 3.28 Mae'r mwyafrif (63%) o safleoedd carafanau a gwerau a hanner (51%) yr atyniadau'n rhoi'r tywydd fel mater sy'n peri pryder yr haf hwn. Nid yw hyn o angenrheidrwydd yn golygu eu bod yn disgwyl i'r tywydd fod yn anffafriol, ond eu bod yn gwybod y gallai effeithio ar eu busnes yn fawr os yw'n anffafriol.

"Ymddengys fod pobl yn troi i fyny pan yw'r tywydd yn dda yn unig."

Parc carafanau, y De-orllewin

Hyder



Sylfaen: 401

Mae hyder yn rhedeg yn uchel

- 3.29 Dywed oddeutu dau o bob pump (38%) o weithredwyr eu bod yn 'hyderus iawn' ar gyfer yr haf, a dywed oddeutu tri o bob pump (58%) eu bod yn 'eithaf hyderus'.
- 3.30 Mae ymchwiliad flaenorol wedi dangos y gall hyder ymysg gweithredwyr twristiaeth fod yn dymhorol iawn, ac yn uwch os gofynnir y cwestiwn tra bod yr haul yn disgleirio. Serch hynny, mae gweithredwyr yn teimlo'n dda am yr haf ac yn edrych ymlaen at dderbyn ymwelwyr.